Polisi Cysylltiadau â Diwydiant a Busnes

Ceir diwydiant ym mha le bynnag y daw pobl at ei gilydd i weithio. Y mae partneriaeth â Diwydiant ble mae Addysg a Diwydiant yn cyfuno i edrych ar sut gall y disgyblion ddeall y berthynas rhwng eu hastudiaethau â'r byd gwaith.

Nodau

1. I ddefnyddio cysylltiadau â diwydiant, gan gynnwys profiad gwaith, fel cyfrwng deinamig i ddatblygu cynllunio cwricwlaidd a dysgu.
2. I alluogi disgyblion i gwrdd â phobl y tu allan i'w cylch teuluol, cylch ffrindiau neu athrawon.
3. I ddeall sut mae diwydiant a'r gymdeithas yn ddibynnol ar ei gilydd ac i archwilio'r berthynas rhwng grwpiau gwahanol o bobl yn eu mannau gwaith.
4. I baratoi'r disgyblion at gyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau bywyd oedolion.
5. I ddefnyddio cysylltiadau â diwydiant i gefnogi datblygiad proffesiynol parhaol yr athrawon.
6. I gynnal a gwella safonau yr addysgu a'r dysgu.

Amcanion

1. I hyrwyddo addysg y disgyblion drwy gynnig cyfleoedd datys problemau mewn timau, gwaith thematig a chyfleoedd

uniongyrchol drwy'r cwricwlwm a gweithgareddau allgyrsiol gan gynnwys y Cwricwlwm Cymreig.

2. I ddatblygu ystod o sgiliau i'r disgyblion, gan gynnwys sgiliau llythrennedd, rhifedd, cyfathrebu, cydweithrediad, ymchwilio, menter, trin data, dadansoddi, gwneud penderfyniad a gwerthuso.
3. I hyrwyddo datblygiad personol a chymdeithasol y disgyblion.
4. I ddatblygu agwedd bositif yn y disgyblion at gyfleoedd cyfartal i bawb yn cwmpasu rhyw, hil ac anghenion arbennig.
5. I wella ar gymhelliant y disgyblion, menter, hunan hyder ac ymrwymiad i ddysgu am oes.
6. I baratoi'r disgyblion i chwarae rhan gyflawn a gweithredol mewn cymdeithas newidiol.
7. I ddatrys dealltwriaeth a gwybodaeth, sgiliau ac agweddau cymwys at waith, hamdden a dinasyddiaeth.
8. I ddatblygu dealltwriaeth a sgiliau er mwyn gwneud dewisiadau effeithiol fel defnyddwyr.
9. I ddarparu cyfleoedd i hyfforddi a datblygu staff drwy gynlluniau fel Buddsoddwyr mewn pobl a lleoliad athrawon.

D.Evans

Hydref 2009